CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 20fed MAWRTH 2018.

1 Presennol:

Cyng Gwilym Looms (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones, Cyng Gareth Evans, Cyng Andrew Hughes, Cyng Jeffrey Hughes, Cyng Selwyn Williams, Cyng Alwyn Rowlands, Cyng Tim Owen. Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen a Peter Rogers. Mr J Alun Foulkes (Clerc Dros Dro).

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorwraig Gwen Burns a Cynghorydd Myfyr Davies.

3 **Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

3.1 Croesawyd Cyng Tim Owen i'w cyfarfod cyntaf.

4 **Datgan Diddordeb.**

4.1 Dangosodd Cyng Selwyn Williams diddordeb yng nghais Cynllunio Tan Lan, Bethel, Bodorgan (15C97E) gan mai fe oedd yr ymgeisydd ac fe gadawodd yr ystafell yn ystod y trafodaethau.

5 **Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 16 Ionawr 2018.**

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir (DGJ/SW).

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

6.1 Oherwydd salwch Cyng Gwen Burns, fe benderfynwyd aelodau'r Cyngor mabwysiadau s85 (1) & (2) o'r Deddf Lywodraeth Leol fel rheswm ddigonol am na allai fynychu'r cyfarfodydd ar hyn o bryd.

6.1 **Carafan, Malltraeth** – nodwyd fod angen sylw ynghylch a'r sefyllfa presennol.

6.2 **Cyffordd Cefn Dderwen –** nodwyd a penderfynwyd fod y sefyllfa angen sylw

Arwyddo.....

6.3 **Carreg Ceiliog Bach** – adroddiad fod y sefyllfa wedi cwblhau.

6.4 **Cyfarfod gyda Awdit Cymru** – adroddiad gan y Cadeirydd fod yr Archwilydd Allanol angen tystiolaeth cofnodion ar gyfer cyfrifon blynyddol 2013/14 & 2014/15 yn dilyn cyfarfod cafwyd cyn y Nadolig.

6.5 **Hen Dogfennau y Cyngor** – dywedodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod sylw mewn llaw o wneud trefniadau adennill holl ddogfennau'r Cyngor sydd mewn cynhwysydd yng Nghefn Cwmwd erbyn y cyfarfod nesaf.

6.6 **Mandad y Banc** – dywedodd y Clerc y bydd yn gwneud trefniadau o gywiro mandad y Banc yn ogystal a gofyn am fantolen diweddaraf a llyfr siec newydd.

6.7 **Hysbysfyrddau Newydd** - penderfynwyd symud ymlaen gyda prynu hysbysfwrdd newydd a lleoli ger Mynwent Trefdraeth ac wrth cilfan bws, Bethel a clustnodi cyllid odditeu £500.00.

6.8 **Lon Gefn Groeslon Hermon i Aberffraw** – angen gwaith tacluso a atgyweirio'r tyllau.

6.9 **Llwybr Arfordirol Ynys Môn** – adroddiad fod gwaith angen sylw i'r Gamfa wedi ei wneud.

6.10 **Swydd y Clerc** – penderfynodd yr aelodau penodi Mr Alun Foulkes fel Clerc dros dro o'r 1af Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019 ac fe ddiolchwyd iddo am ymgymeryd y gwaith ar rhan y Cyngor.

7 Materion Cyllid - Taliadau & Derbyniadau:

7.1 Taliadau.

7.1.1	Un Llais Cymru	–	Tal Aelodaeth 2018/19	-	£148.00
7.1.2	Cyngor Sir Ynys Mon	-	Costau Etholiad Mai 2017	-	£270.00
7.1.3	Mr John Roberts	-	Archwilad Mewnol	-	£70.00

7.2 Derbyniadau

7.2.1	Claddu Llwch – Diweddar Richard Lewis Jones (3/3/2018)	-	£240.00

7.3 Sefydlu Paneli er mwyn ymateb gofynion Archwilydd Allanol.

7.3.1 Cytunwyd yr aelodau penodi Cyng Dafydd Jones, CyngAlwyn Rowlands a Cyng Tim Owen gyda'r Clerc i gywiro dogfennau cyllidol y Cyngor dros y flwyddyn nesaf ac adrodd yn nol i'r Cyngor pan fo modd.

Arwyddo.....

7.3.2 Cytunwyd yr aelodau penodi Cyng Alwyn Rowlands i weithio ar y cyd gyda'r Clerc er mwyn cywiro llyfrau claddu y Cyngor.

7.3.3 Cytunodd yr aelodau peidio hawlio £500.00 sydd ar gynnig i pob Cynghorwr yn dilyn adolygiad y Lywodraeth Leol.

7.3.4 Cytunwyd aelodau, yn unfrydol, o wneud rhodd o £100.00 tuag at Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (DGJ/JH).

8 Ceisiadau Cynllunio Newydd.

8.1 Cais Cynllunio Addasu & Ehangu yn Ty Moel, Bodorgan (15C226) – **Penderfyniad - DIM SYLWADAU.**

8.2 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn Tan Lan, Bethel, Bodorgan (15C97E) – **Penderfyniad - DIM SYLWADAU.**

9 Materion Mynwentydd.

9.1 **Prisiau Claddu – cadarnhawyd fod y prisiau wedi ei adolygu er mwyn cynnwys unrhyw blentyn dan 18 – costau claddu – DIM.**

10 Materion Priffyrdd.

10.1 **Maes Glas, Bethel** – oherwydd cytundeb hanesyddol, penderfynwyd yr aelodau fod yr amser wedi dod unwaith eto fod angen ail-codi'r a datrys y fater gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

11 GOHEBIAETH

11. Rhybudd Cyfarfod Cangen Mon - Un Llais Cymru – 22 Mawrth 2018 yn Neuadd y Sir, Llangefni yn cychwyn am 7:00yh.

12 Deffribiliwr Cymunedol

12.1 Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi a cyfranu at costau sydd angen ar gyfer cynnal a chadw y Deffribiliwr Cymunedol sydd wedi ei leoli yn y Neuadd Cymunedol.

Arwyddo.....

13 Dyfodol yr Ysgol Gymuned

13.1 Fe rhoddodd Cyng Dafydd Jones adroddiad hanesyddol llawn ers 2013 i'r aelodau gyda trafodaethau ac ymdrechion o ddatrys dyfodol yr Ysgol gyda Prif Weithdredwr y Cyngor Sir ac fod pethau wedi distewi nes iddo dderbyn ebost oddiwrth Mr Dylan Edwards o'r Adran Eiddo yn gofyn iddo fynychu cyfarfod anffurfiol heb ragfarn er mwyn ceisio trafod unrhyw cam ymlaen. Disgwylir y bydd datblygiadau ar y gorwel ac yn sicr ymhen y 12 mis. Dywedodd fod yr adeilad yn unigryw oherwydd ei statws elusennol ac felly roedd yn disgwyl ymateb gyda barn gyfreithiol cyn symud ymlaen.

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol – 15 MAI 2018.

14.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Clowyd y cyfarfod am 8:55yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....14/5/18.....**Dyddiad.**